FSPFC07

# Rheoli ansawdd penderfyniadau i gynnig cyfleusterau cyllid a chredyd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag adolygu neu awdurdodi penderfyniadau i gynnig cyfleusterau cyllid neu gredyd. Gall hyn fod mewn perthynas ag achosion unigol sydd angen atgyfeiriad, neu fel rhan o broses oruchwylio barhaus. Bydd angen i chi roi sylw i fanylion sy'n hanfodol i'ch gwaith, a bydd angen i chi asesu ceisiadau a baratowyd gan eraill yn eich tîm, gan sicrhau bod lefel y risg yn dderbyniol a bod sicrwydd priodol ar gael lle bo hynny'n addas. Rhaid i chi weithredu oddi mewn i lefel mandad eich awdurdod i gymeradwyo ac awdurdodi ceisiadau, a dangos eich bod yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn mewn modd cymwys.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Casglu'r holl wybodaeth a dogfennaeth angenrheidiol i chi gynnal adolygiadau, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Gwirio bod ffurflenni cais wedi'u cwblhau yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Canfod lefel y risg a gyflwynir gan geisiadau am gyfleusterau cyllid neu gredyd yn erbyn meini prawf a chanllawiau eich sefydliad
4. Cyfiawnhau eich penderfyniad i symud ymlaen gyda cheisiadau am gyfleusterau cyllid neu gredyd, yn unol â'r awdurdod sy'n rhan o'ch mandad a chanllawiau eich sefydliad
5. Gwirio bod sicrwydd ar gyfer y cyfleuster cyllid neu gredyd yn ei le os bydd angen, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Adolygu ac awdurdodi ceisiadau sy'n rhan o fandad eich awdurdod a meini prawf eich sefydliad ar gyfer cyfleusterau cyllid neu gredyd
7. Cyfeirio ceisiadau sydd y tu allan i'ch awdurdod eich hun at bobl briodol i'w cymeradwyo, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Nodi risgiau posibl yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
9. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, gan gynnwys safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y cyfleusterau cyllid neu gredyd a gynigir gan eich sefydliad, a'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol iddyn nhw
2. Deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol sy'n effeithio ar eich gwaith
3. Meini prawf a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cymeradwyo neu awdurdodi ceisiadau am gyfleusterau cyllid neu gredyd
4. Terfynau eich awdurdod wrth gymeradwyo neu awdurdodi ceisiadau am gyfleusterau cyllid neu gredyd
5. At bwy y dylech chi gyfeirio ceisiadau nad oes gennych awdurdod i'w cymeradwyo
6. Meini prawf a chanllawiau eich sefydliad ar gyfer canfod y risg sydd ynghlwm wrth geisiadau am gyfleusterau cyllid neu gredyd
7. Canllawiau eich sefydliad ar gyfer delio gyda materion twyll a gwyngalchu arian
8. Canllawiau eich sefydliad mewn perthynas â sicrwydd ar gyfer cyfleusterau cyllid neu gredyd
9. Y dogfennau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi ceisiadau am gyfleusterau cyllid neu gredyd
10. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac yn foesegol
2. Rydych yn arddangos uniondeb, tegwch a chysondeb yn y penderfyniadau a wnewch

FSPFC07

Rheoli ansawdd penderfyniadau i gynnig cyfleusterau cyllid a chredyd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPFC07 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Cyllid a Chredyd |
| **Geiriau Allweddol** | Benthyca; rhoi benthyg; penderfyniad benthyca; gostyngiad; cais am forgais; mandad; sicrwydd; hawl; mantolenni; telerau ac amodau; benthyciad; gorddrafft; wedi'i sicrhau; heb ei sicrhau; ôl-ddyledion; credyd |